Y GLORIAN,

PWYSO WILLIAMS, A WILLIAMS YN PWYSO DAVID;

D WILLIAMS, ABERCANAID

D EI HUN ... EI DDAL YN EI DWYLL ... BROFI ... ODDEISTAIDD.

... wrw yn euog, ac nid myfi, a'th wefusau sydd yn tystio ...
Job xv, 6

... tyr dewi a phan watwarech, oni bydd a'th waradd ...

... lle ... a ... Mormoniad,
... ble ... Duw o'n plaid,
... yr holl Benddaud."

GAN CAPT. D. JONES.

MERTHYR-TYDFIL

ARGRAFFWYD AC ... WERTH GAN YR AWDWR.

1846.

AT Y DARLLENYDD.

[illegible] yn y [illegible] Mr. Williams, [illegible] yn amddiffyn [illegible] dyn [illegible] ei draddodiad [illegible] rhagfarn [illegible] ei fywyd cyn eu colli [illegible]. M[illegible] yn [illegible] hwnw ag oedd wedi suddo [illegible] ar lân afon fawr [illegible] ol llif-ddyfroedd mawrion. Pan yr oedd rhyw [illegible] heibio y ffordd hòno, wedi i'r wyneb galedu, [illegible] Cipiodd hi i fyny; ac, er ei syndod mawr, [illegible] Ar ol syllu arno nes credu ei lygaid ei hun, cyffiodd [illegible] holl nerth, gan feddwl ei godi i'r lan gerfydd ei wallt; ond, [illegible] y *pwl* cyntaf, gwaeddai y truan yn groch, "Peid-[illegible], peidiwch [illegible] i'r lan, canys y mae genyf gefyl dan fy [illegible], a phâr o [illegible] newydd am fy nhraed, gwell genyf suddo [illegible] colli!"

[illegible] mai afreidiol y drafferth hon—fod y gw[illegible] hwn, a'i ysfyn, islaw sylw. Yr wyf yn cyfaddef, oddi[illegible] broffedd, mai dyna y meddwl cyntaf, a digon rhesymol, i bob dy[illegible] egwyddorol: ond, ar yr ail feddwl, cofiais ail gyngor y gwr doeth sef, "Ateb yr ynfyd, yn ol ei ynfydrwydd, rhag iddo fod yn ddoeth yn ei olwg ei hun." Pan ddeallais mai *mouthpiece* i ryw gyn-nadledd o gledrwyr, ac mai tafod cloch eu clochdy hwy, ydyw y *scribe* hwn, meddyliais, os na amddiffynwn fy hun a'r gwirionedd, yn ngwyneb y fath gam-gyhuddiadau erchyll, a dangos ffolineb, twyll, ac ynfydrwydd y *clique* hwn, na fyddai llonyddwch i'r Saint [illegible], wrth eu gwaith, ar hyd yr heolydd, nac yn wir hyd y nod yn eu tai eu hunain ychwaith, gan "genedl y cecrod" hyn yn eu haflon-yddu yn gyhoeddus, a chan na wnâi *silent contempt*, wedi hir dreial, ond eu gyru yn waeth-waeth, rhaid "cau eu safnau" â'r gwirionedd. Darllen yn ddiduedd, ddarllenydd, a rho chwarae teg i'r GLORIAN droi yn gywir.

UPB

Y GLORIAN.

DIFYRUS fyddai i'r darllenydd wybod achau y traethodyn bach hwnw a elwir "TWYLL Y SEINTIAU DIWEDDAF." Hysbysir ni yn ei ddechreu fod "cyd-ymgynghori" mawr wedi bod yn ei gylch, cyn ei eni—"cyn gosod pin ar bapyr," meddant. A rhyfedd y cynghor a gynnullwyd yn y Pentrebach, ar yr achlysur o darddiad allan y *crwt* bach hwn i'r byd! Yn ddiweddar daeth crwtyn bach arall i'n plith, go debyg o ran ei natur, gyda hyn o wahaniaeth, sef na wyddai y cyntaf pwy a'i danfonodd. Cywilyddai ei dadws ei arddel, oherwydd ei fod yn gwybod mai un celwyddog yw. Ond, i wneyd fyny y gwall hwnw, mae gan hwn gynnifer o dadau nes y mae yn anhawdd gwybod pwy a'i pia; ond o holl "weithwyr cledrau y Pentrebach, cytunwyd yn y cynghor," sef y senhadrim fawr ei hun, fod y cadfridawg, y dewraf o'r cynghor, sef David Williams, i fod yn dadws, a dau Fedyddiwr (sef Edward Jones ac Evan Lewis), a dau Annibynwr (o'r enw Stephen Williams a John Powel), fod yn dadau-bedydd iddo;—y rhai hyn yn llaw-arwyddo, "dros eu cyfeillion OLL," ebe hwy, y byddai yn grwt dymunol a da, ie, cyn ei weled erioed, yn ol eu haddefiad. "*Bydd* y llyfryn hwn yn cynnwys nodiadau i *gael eu gwneyd*," meddant, sef yn yr amser dyfodol, wrth gwrs! Da y dywed Solomon—"Y neb a atebo beth cyn ei glywed, ffolineb a chywilydd fydd iddo:" felly y cywilyddir y rhai a gynnygiant y fath sothach â hwn i'w cydgenedl, cyn ei weled, os oes cywilydd ynddynt Ond digon melys fyddai i'w chwaeth hwy, gan y byddai yn rhywbeth yn erbyn y "Saint." Dyma eu clwyf, mi welaf; a'r hwn a fedrai draethu mwyaf o *flackguardiaeth*, a lleiaf o wir am danynt hwy, a gaffai y lle uchaf yn y senhadrim Phariseaidd hon. Lled debyg i'r cynghrair gynt, onide, pan yn llunio celwyddau yn erbyn yr Iesu addfwyn, a phwy a ladrataai ei gorff ef. Nid oes ond ychydig amser er pan oedd y *clan* hwn yn cynghori modd i fradychu ac enllibio eu gilydd, ar heolydd rhy gulion iddynt basio, heb fod dwrn y naill yn cwrdd â thrwyn y llall, a'r oll am grefydd; ond pan yr hòna ereill eu hawl i feddwl drostynt eu hunain, yn eu plith, cytunant fel cŵn tref i gyfarth y dyeithr-ddyn a ddel heibio—y cyntaf yn dechreu rhag ofn y collai asgwrn, a'r lleill yn codi eu cynffonau ac yn chwyrnu, wrth glywed y llall yn cyfarth. Wedi y cynghori a'r dyfeisio yn y senhadrim ddoeth a chymmysglyd hon, a threfnu eu rheolau, a gosod eu prif-gadben, *alias* eu *cat's paw*, ar ei orsedd, dychymmyged y darllenydd ei weled yn ymsythu ac yn crechwenu, i ni alw am bin a phapyr. Hwi, ac ati! Yn awr am ddial ar yr hen Seintiau; "rhaid troi eu gwyn-galch hwy yn barddu, a'm parddu innau yn wyn." "Wel, beth a ddywedaf gyntaf? O, ie, ei Ragymadrodd; rhaid beio o ddechreu i ddiwedd ei draethawd," sef yr *Hen Gref,dd Newydd*. Peidied y darllenydd a chwerthin am ben y gwr doeth, doeth—mawr, mawr hwn yn gofyn y cwestiwn cyntaf. "Gofynaf innau, er mwyn egluro [tywyllu] y mater, a ydyw yn anghenrheidiol anhebgorol i ddyn wybod gwerth rhodd, cyn bod yn dderbynydd o hono?" Gofynaf innau pwy

a ddywedodd ei fod? Nid myfi: ond hyn a ddywedais, fod meddwl annibynol yn un o roddion hynotaf y Nef i ddynion—mai ychydig, mewn cymhariaeth, sydd yn ei chadw rhag ei dwyn yn gaeth gan draddodiadau, fel yr eiddo ef a'i gyffelyb, a hyny am nad ydynt yn gwybod ei gwerth *wedi* ei chael. Pe buasai efe yn gofalu am y *tense* yn well, buasai raid iddo basio y dechreu heb gael bai: ond gyda dechreu gosod ei bin ar bapyr, mae ei anonestrwydd a'i dwyll-resymeg yn dod i'r amlwg, ac yn parhau yn gam-gyhuddiadau tra parhao ei lyfryn. Yn nesaf dywed—"Mae dull ei eiriau ef yn arwyddo mai efe yn unig gafodd rhodd y Nef, o'r sawl oedd ef wedi weled." (Maddeuer ei rammadeg) Pwy sy'n dweyd hyny? Williams, debygaf; canys y mae David, yn y ddwy llnell flaenorol, yn dweyd yn hollol groes i hyny yn yr addefiad hyn. Dywed mai myfi yw yr unig un a welais o'm cenedl (sef y pryd hyny) sydd yn hòni fy hawl i—(ai i'r rhodd hòno? nage, ond i)—*gredu* ac i *amlygu* yr ATHRAWIAETH a osodir allan yn y TRAETHAWD hwnw. Pa un a goeliwch? ai David ai Williams? Coeliaf fi David yn awr; ond ceir gweled pa mor eirwir y parha wrth fyned yn mlaen Nid yw ei waith yn heio ar wall yr argraff-wasg yn rhoddi *cyn* yn lle *wedi*, ond dangos ei awydd i gael beiau a methu: gallem nodi rhai degau o waeth beiau yn ei lyfryn ef. Mawr yw'r ystwr a wna ynghylch rhyw gau brophwydi—ie, gau brophwydi sydd ar flaen ei bin a'i dafod, heb gynnyg un prawf pwy ydynt; ond o gasineb at hrophwydoliaeth, condemnia bawb a'i proffesa; ac ar yr un amrantiad yn troi yn brophwyd ei hun. Sylwed pob Cymro ar y prophwyd mawr, sef *cat's paw* a *scribe* senhadrim y Pentrebach yn prophwydo!! "Ysgrifenir cyn bod yn hir, mai noswaith y bu ef, ac mewn noswaith y darfu." Ai tybied na roes "grys rhawn" am dano, a galw ei holl gynghor i glywed hon, ie, a myned i ben y pwlpud hwnw y cynnygiwyd ei osod i fyny iddo yn y dafarn, er cymhenu y Saint? Tebyg y fod yno foullef fawr o *amen* pan draddododd y hrophwydoliaeth fawr hon! Wel, daeth i'r *trap;* ceir gweled ai gau ai gwir brophwyd ydyw: ond, "a pha farn y barno, ei bernir." Gyda dechreu ei draethawd crynhoa ei resymau cadarnaf, er bychanu a difrio gorchymyn pendant Mab Duw, gan annelu ei "saethau brwyn" ato ef, o elyniaeth "at bob saint y Goruchaf;" ac y mae yn llwyddo cystal â nemawr Ddeist befyd! "Ofnadwy yw ei ruthr, yn chwythu ber at byrth y nef." Os gwir ei resymeg, prawf y gall y paganiaid, a phawb na chlywsant son am Grist erioed, fwynhau yr un dedwyddwch a gogoniant â'r rhai hyny a gadwasant ei orchymynion ef! Dywed fod lluoedd o bil Adda na chlywsant son am y gorchymyn hwn. Gwir fod; ond, a ydyw hyny yn profi fod y cyfryw yn gadwedig? Dywed y Bibl "nad oes enw arall wedi ei roddi yn mhlith dynion trwy yr hwn y mae yn rhaid i ni fod yn gadwedig," ond Iesu Grist. Wedi ymresymu nad yw anwybodaeth y cyfryw yn lleihau eu dedwyddwch, yn y fan daw ag adnod sydd yn chwythu ei Ddeistiaeth o'i sail—"A pha fodd y credant yn yr hwn ni chlywsant am dano?" Pa fodd yr achubir hwy drwyddo, heb glywed am dano, a chredu ynddo, ynte? ac felly addefa fod eu dedwyddwch a'u gogoniant yn gyssylltiedig anwahanol ar iddynt ufyddhau i orchymynion Crist. Ai tybied y buasai iaith fel hyn yn taro yn dda yn eu *Missionary Society*, er cael casgliad mawr er anfon cenadon i wneyd i'r paganiaid yr hyn beth nad yw yn ychwanegu eu gogoniant.

Er profi fod y paganiaid yn annibynol ar Grist, ac yn ddibechod hyd nes y clywant am dano, arfera eiriau Crist—"Oni buasai i mi ddyfod a llefaru wrthynt, ni buasai arnynt bechod"! Nid oedd yn dweyd y buasent yn lân oddiwrth bob pechod; "canys nid oes neb cyfiawn ac ni phecha, nac oes un." Ond ni buasent yn euog o'r pechod o'i wrthod ef; ac felly, y gellid dweyd wrth fy nghyfaill, oni huasai fod Duw wedi anfon ei weision y waith hon, ni buasai yr ysbryd drwg yn ei demtio yntau i'n gwrthwynebu mor erchyll a diachos. Pe buasai yn edrych yn y linell flaenorol i'r hyn a ddyfyna, yn lle darnio fy ngosodiad, cawsai weled y geiriau hyn:—"Yn ol eu hymddygiad ato [y gorchymyn] y *bernir* y rhai oll a'i CLYWANT;" ac hyd yma nid oes dim ond croes-bacriadau ffol wedi eu cynnyg at "yr oruwch-adeiladaeth," ac nid yw wedi cyffwrdd ag un gareg o'i sylfaen, er troi yn Ddeist i'r dyben hyny, a thwyll ymresymu hefyd. "Cymhella yr awdwr ni," medd efe, "i roddi ein meddyliau a'n rhesymau iddo ef i chwilio am y deyrnas." Nid fel y ceisiodd ac y cafodd ef gan ei senhadrim fawr i roddi eu synwyrau, eu pleidleisiau, a phedwar o'u Jacks, ardystio eu henwau wrth ysgrif ag oedd yn fwriadu ysgrifenu *wedi hyny*, y ceisiais i, ond iddynt roddi eu meddyliau a'u synwyrau ar waith yn ddiragfarn. Beth, a ydyw ei ganlynwyr oll yn rhoddi eu meddyliau a'u synwyrau iddo ef o flaen pob llyfryn a wnelo; yna dylent gael sen am ddystrywio eu cymmeriadau; ond esgusoder hwy am y tro hwn, canys ni wyddent wrth ba fath lyfryn y rhoddid eu henwau "dros eu cyfeillion oll." Nid wyf yn meddwl y rhoddant ganiatâd i wneyd felly etto, os cânt ddod o'r *scrape* hon, mwy nag y gadawai y gath i'r mwngci pert hwnw ddefnyddio ei phawenau bi yr ail waith i dynu yr afalau o'r tân. Sylwer ar David yn croes-ddweyd Williams etto. Yn nhud. 13, dywed—"Y mae gan Dduw rai yn dal athrawiaeth y Testament Newydd yn ei PHURDEB, cyn i chwi gael eich geni, ac yn ymarferyd a'i hordeinhadau, yn meddu ei bysbryd." Ond, beth a ddywed Williams? A ydyw efe yn meddu yr ysbryd hwnw sydd yn tywys *i bob* gwirionedd, tybied? O, na; yn y dudalen flaenorol dywed Williams, na feiddia efe fod mor rhyfygus a ffol â "meddwl bod yr holl wahanol sectau ar hyd y byd yn dal yr *athrawiaeth* efengylaidd yn ei PHURDEB, nac yn dal y traddodiadau yn gwbl yn ol cynllun y cyn-eglwysi; ac yn rhwydd y cyfaddefwn [medd Williams] fod y goreu o honom yn agored i ffaeleddau." *Well done*, Williams; er colli o'r blaen, mae yn ennill yn awr, ac yn nes i'r gwir nâ David. Gwr mwyn iawn yn awr: ond etto rhydd naid yn y fan, fel ceiliog y rhedyn, oddiwrth egwyddorion at bersonau, gan ymresymu na ddichon cyfundrefn fod yn berffaith yn ei sefydliad, oddieithr fod pob person oddi mewn iddi yn berffaith! Os felly, nid oedd y cynllun a roes y Brenin Nefol ei hun o'i deyrnas, ddim yn herffaith, am nad oedd y deiliaid yn berffaith. Dyma enghraifft o *logic* y doethyn hwn. Ai tybied y gŵyr ragor rhwng personau a chyfreithiau? Yn ol ei resymeg ef, dylai pawb wylio am eu hywydau, rhag teithio ar hyd y *cledrau* a wneir gan wyr mor anmherffaith â'r senhadrim hon o Bentrehach! Nid yw ei gwestiynau coeglyd yn y ddwy dudalen uchod yn deilwng o'n sylw. Terfyned y ddadl rhwng David a Williams; ac yna dangosaf i'r hwn a goncwero nad oedd yr efengyl dragywyddol yn ei phurdeb, na theyrnas Dduw gan ei gyn-dadau er ys cannoedd o flyn-

yddau, ac ni ddichon ei ... ganddynt ar eirwiredd yr Ysgrythyrau; rhaid cyflawni y prophwydoliaethau, sef fod i'r "bwystfil ryfela â'r saint nes eu GORCHFYGU hwynt." (Gwel yr "*Atebydd.*") Mae yn dangos ei anwybodaeth o'r Ysgrythyrau y cyfeiria atynt er sefydlu ei osodiad traddodiadol, megys—"Onid oedd, ac onid yw, yn rhaid iddo deyrnasu, hyd oni osodir ei elynion yn droedfainc i'w draed?" Etto dywed—"Gwir mai y rhai hyn a ryfelant â'r Oen, ond yr Oen a'u gorchfyga hwynt. Gwel y darllenydd, yn ol Ioan yn Dat. xvii, 14, mai ar ol cwymp y Babilon fawr hòno y cyflawnir hyn, wedi y delo Crist i deyrnasu ar ei deyrnas yn ei nerth, fel Brenin y Breninoedd. Nid oes dim yuddynt yn cyfeirio at yr amser mynedol, ond wedi y delo ar fynydd Sion. (Gwel Dat. xiv, 1,) Mae yma wyrdroi erchyll! afreidiol manylu. Ond, gan fod Williams yn addef nad oes ganddo y *cynllun* na'r *athrawiaeth* efengylaidd, pwy roes hawl iddo i'w cyfnewid, tybied? O, ei dadau duwiol: fel y gwnaeth ei dadau, y gwna yntau. Oberwydd fod rhai cyfeiliorniadau yn y cyn-eglwysi, yn ol ei resymeg, gall yntau gyfnewid y *cynllun*, y *swyddogion*, yr *ordinhadau*, &c., a bod yn deyrnas Dduw wedi hyny! Rhyfedd mor ffol yw rhai pobl! Am y cyn-eglwysi—yr oeddynt yn *wir* eglwysi, wedi eu planu gan weision anfonedig Duw. Ai y rhai hyny a blanodd eglwys Abercanaid, &c? Os nad e, paham yr hòna eu bod yn gyfryw a hwy? Ai oherwydd ei fod ef yn haeru eu bod, y mae yn rhaid iddynt fod? ac etto addefa eu bod yn wahanol! Ond, er gweled nad yw yn bossibl fod y gwahanol eglwysi yn yr oes hon yn deyrnas i Dduw, ond wedi eu sefydlu gan ddynion, gwel yr *Hen Grefydd Newydd* a'r *Atebydd*, lle yr atebir y rhan twyaf o sylwadau Mr. W., ac y profir nad oes ganddo ddim awdurdod oddiwrth Dduw. Ond, ust! Yn nesaf, clywaf swn fel taran fawr, a thwrf rhyfel! Dychymmygaf glywed rhuad magnelau, nes y mae'r ddaear bron yn crynu oddiamgylch! Beth! ai daeargryn yw? On na, rhuad udgorn y cadfridog dewr yn gwaeddi o'i flaen,—"Y Captain, yr ydwyf yn dyfod allan yn wrthwynebydd i ti; canys cyfeiliornus yw dy ffordd yn fy ngolwg." Dychryned pob llygoden, tyned y falwoden ei deugorn yn ol i'w chragen: na throed cŵn y Pentrebach ddyfod yn eu penau; canys wele y Goliath fawr, fawr o Abercanaid, yn dyfod allan i frwydr! Fenywod anwyl, eipiwch eich plant o'r heolydd, rhag iddo eu sathru dan eu wadnau haiarnaidd i'r llwch; ie, dacw ei holl senhadrim yn gadael eu cledrau a'r cyfan, ac yn dilyn ei *gwt*. Ffowch chwi, Seintiau, onide bydd diwedd y byd am eich penau yn awr! Och fi, druan! dacw ef yn codi ei waywffon fawr i'r awyr, ac yn agor ei enau yn anferth i'm llyncu! O na; diolch iddo, rhydd i mi un cynnyg am fy mywyd! Pwy fuasai yn dysgwyl i gawr mor anferth, arbed bywyd un mor fach yn ei olwg, na sylwi ar y peth an a eilw yn "saethau brwyn?" Na chwardded y darllenydd am ei ammodau; canys gwell cael bywyd fel hyn, na'm taro i ddiddymdra a'i bresennoldeb. 1. Rhaid i mi "iachau holl gleifion Merthyr a'i chylchoedd." "2. Noda pa bryd y bu, neu y bydd, tafodau gwahanedig megys o dân, yn eistedd ar ben pob un, neu rhyw rai o'r cyfryw a elwch eich hunain yn Seintiau Diweddaf." Dwy ammod go galed, onide? Ond clyw y nesaf, a dywedi y derbydd am danaf, yn siwr. "3. Yfwch bethau marwol, ac heb niwed yn canlyn." Ai tybied y boddlonid ef wed'yn? Nid yw yn dweyd pa un

ai *arsenic, prussic acid, henbane*, neu ei hoff ddiod ef; a gedy i ni ein rhyddid, fel yntau, i ddewis faint fydd y *dose*. Ond mae y pedwerydd peth yn fwy anhawdd etto. Gofyna i mi ei ddarbwyllo ef, fod yr Ysbryd Glàn yn fy nhywys yn hollol groes i'r Ysgrythyrau!!! Beth bynag am y rhai cyntaf, nid anturiaf ar yr olaf; a gormod gorchwyl yw iddo yntau hefyd, er ei faint, i ddangos fy mod yn groes i un ysgrythyr o fewn y Bibl. Un o'i haeriadau disail yw hwn etto. Ond, pwy yw y cawr hwn sydd mor daer am gael arwydd? Ai pregethwr y geilw efe ei hun? Ie! Yn credu y Bibl? Ie, meddai efe!! Ac etto yn gofyn arwydd er credu yr athrawiaeth sydd yn y Bibl? Ie! Ac yntau yn baeru ei fod yn ei chredu eisoes? Ie; gyda hyn o wahaniaeth—mai David sydd yn gofyn arwydd, a Williams yn ei chredu eisoes. Yna, David yw y Deist y tro hwn! Wel, teg yw newid bob yn ail. Ow, druan a David—eisieu arwydd, aie? cyn y cred yr hyn y dywed ei fod yn ei bregethu eisoes! Beth pe bai yn ddall, ni byddai yn bossibl ei gael i gredu. Eisieu arwydd! Da y dywedodd Crist mai "cenedlaeth ddrwg a godinebus sydd yn ceisio arwydd." Dyma yw dedfryd y Barnwr cyfiawn arno. Ni allaf lai nâ meddwl am ddechreuad yr hen grefft hon o ofyn arwydd er ys llawer dydd, pan y daeth hen *gadfridawg* y fall allan i gyfarfod â Chadben ein hiachawdwriaeth ni yn yr anialwch. Yr oedd am dano yr un "wisg o rawn," ganddo yr un waywffon, yn chwythu yn groch drwy yr un udgorn, â'r cawr o Abercanaid; ac yn wir, mae ei leferydd hefyd yn ei gyhuddo o'r berthynas agos sydd rhwng tad a mab. "Anhawdd yw dwyn dyn oddiar ei dylwyth." Mae holl ddoethineb ei aeuhadrim ef wedi methu a dirnad fy achau i—brawd i bwy wyf—pa un ai dyn neu angel. Dywed un mai "cythraul bychan" wyf; ond dywed Mr. W. mai dyn wedi ei *gythreuleiddio* ydwyf, a'r modd y gŵyr hyny yw drwy fod y "sawyr uffernol" arnaf. Mor dda mae yn adnabod y sawyr hwnw, onide? Modd mae pregethwr cariadus mor gynnefin â'r fath beth? Ond ni raid dychymmygu, na chwilio am ei achau ef, canys ei enau ei hun a'i bwrw yn euog. Pa raid am dystiolaeth mwy, ond fod y *junior* yn dasgwr caletach nâ'r llall. Gofyn hwn bedwar arwydd, lle na ofynai y llall ond un fach, a llawer hawddach ei gwneyd na "iachau holl gleifion Merthyr a'i chylchoedd." Nid oedd efe mor elyniaethus â dymuno ei wenwyno. Druain ydynt, plant y tywyllwch! Da y dywedodd Crist—"Oni chredant Moses a'r prophwydi, ni chredant ychwaith pe cyfodai un oddiwrth y meirw atynt." Ni ddarfu i un o weision Duw erioed roddi arwydd i neb er credu yr efengyl, er cymmaint a ofynid iddynt; a phe gwnai rhyw un hyny, profai drwy hyny mai gwas y diafol a fyddai, wrth ufyddhau i'w hen gwestiwn ef ei hun, sef, "Arch i'r gareg hon fod yn fara." "Y gwir ydyw [ebe yr anffyddiwr hwn] mai arfer gyffredin twyllwyr, yn mhob oes, ydyw ffugio gwyrthiau; ac felly [sef ffugio] y mae y bobl hyn." Pa fodd y gŵyr efe hyn, tybied? A fu efe gyda phob rhai o honynt, yn mhob cwr o'r byd, bob amser? neu yute, a hòna efe ei fod yn holl-bresennol ac holl-wybodol? Rhaid ei fod felly cyn y dichon neb gredu yr haeriad yna. Wel, dyma y Deist wedi gwneyd ei hun Dduw o'r diwedd, neu yn ddim! Onid fel hyn yr ymresymai y cyfryw yn erbyn yr apostolion? Yn ei awydd i'n condemnio ni, gwada eu geirwiredd hwythau. Ond, at ei holl gamgybuddiadau, ychwanega—"Hwy a fynant i ni gredu eu bod yn

gwneuthur gwyrthiau." Anwiredd yw hyn; canys *ni* fynem iddo ef, na neb arall, feddwl ein hod ni yn gwneuthur gwyrthiau; ac ni ddarfu i ni erioed ddweyd byny. Mae mwy o wahaniaeth nag a feddylia Mr. W., efallai, rbwng fod dynion yn proffesu y gallant *hwy* wneuthur gwyrthiau, â dweyd fod eglwys neu hobl Dduw yn mwynhau y doniau ysbrydol a'r bendithion a fwynheid gan ei blant yn mhob oes flaenorol (yn ol yr hanes santaidd), pa rai a addawyd gan Grist i'w eglwys, ac i bawb a gredent ei efengyl ef yn ddiwahan, ond nid i'r rhai a gredent draddodiadau dynion. Pe buasai Mr. W. yn rbyw gymmaint o ram-madegwr, canfyddai gymmaint o wahaniaeth rbwng ei haeriad ef â'n proffes ni, ag sydd rhwng berf ac enw cadarn. Ai tyhied y gŵyr ragor rhwng gweithiwr a gweithred; ond bid aiwr, y gall wyhod rbagor rhyngddo ef ei hun â'r eledrau a wna. Wel, dyna y peth: unpeth ydyw iddo ofyn arwydd gan weision Duw, â ebeisio gan y fwyall gy-myno y pren i lawr, heb gydio ynddi. Ai tybied nad yw yn cywilyddio, bellacb? "Ond pan ofyner ganddynt am ddangos y prawf." Ie, dyna hi etto. "Dyro arwydd;" "gwna wyrth," ebe ef. Taw, Satan; oni ddywedodd fy Meistr, "Dos o'm bol?" Dangos y prawf o ba beth, tybied? ie, prawf o'r byn *nad* ydym yn ei broffesu! Gallem ofyn iddo yntau yr un peth. Os gofyn arwydd y mae er profi ein crefydd, rhoddaf iddo yr oreu o bob arwydd at hyny, sef y *Bibl cyssegr-lân*. Ond gwada hwnw; pa arwydd yw hwnw iddo ef? Ac etto, arwydd a fyna—ie, arwydd yn brawf ein bod ni yn weision i Dduw. Ie, dyna hi—yn gymbwya fel el dad gynt. "Prawf mai Mah Duw ydwyt," ebe ef. Yr oedd efe yn credu yn Nuw, bid siwr, o'r blaen. Ond y mae'r *sign-seeker* yn suddo yn ddyfnach i'r gors bob pranc a rydd er dyfod allan. Yn awr, nid oes ond ei ben allan, ac bwnw yn llydan agored, yn gwaeddi nerth ei hen, Oni wnewch wyrth i brofi eich anfoniad, gwell genyf suddo yma nâ'ch credu! Ond, er "ateb yr ynfyd yn ol ei ynfydrwydd, rhag ei fod yn ddoetb yn ei olwg ei hun," gofynwn a ydyw efe yn proffesu hod yn was i Dduw? O, ydyw; ac yn pregethu (ebe ef) rywbeth i'w gyd-greaduriaid ag sydd yn prysuro i farn fanwl! Oni ddylai yntau wneyd gwyrtb, er profi ei anfoniad a'i hawl i hyny? Gwnewch, Dei hacb, pe tal ddim ond un arwydd bach, (fel pe dywedai ei ddyscyblion) onide ni chredwn ni eich tystiolaeth chwi, mwy nag y credwch chwithau dystiolaeth y Seintiau; ac wed'yn dyna gynffon y llwynog yn *fast* yn ei *drap* ei hun! Ow, druan yw efe —eisieu gwyrtb i hrofi anfoniad gweision Duw, aie? Felly siwr. Pe gwnelai rbywun wyrth iddo, a fyddai hyny yn brawf iddo o'r cyfryw beth, tybied? Os byddai, y mae yn addef y gall ef ei hun fod yn was y diafol, ac na ŵyr pa un, hyd nes y gwelo yr arwydd yn cael ei wneyd. Yna, medd efe, caf wybod ai myfi neu hwy yw gweision Duw. A welweb chwi y fath brawf sydd ganddo ef o'i anfoniad! Y mae yma yn gwerthu ei hun i ryw awynwr neu dwyllwr a ddel heibio, am wyrth. Druan a'i enaid, onide? Fe allai werthu ei hun, a'i *senhadrim oll*, i satan, drwy fod ei Jacks yn llaw-arwyddo *"dros eu cyfeillion oll;* canys dywed yr Ysgrythyr (yn Math. xxiv, 24)—"Canys cyfyd gau gristiau, a gau hrophwydi, ac a roddant *arwyddion* mawrion a rhyfeddodau," &c. Hefyd, dywed Ioan yn Dad. xiii, 13, 14—"Ac y mae efe [sef y bwyst-fil] yn gwneutbur *rhyfeddodau mawrion*, hyd onid yw yn peri i dân ddisgyn o'r nef i'r ddaear yn ngolwg dynion; ac y mae efe yn twyllo y

rhai sydd yn trigo ar y ddaear, trwy y RHYFEDDODAU y rhai a roddwyd iddo eu gwneuthur," &c. Gwel y darllenydd mor hawdd fyddai i satan a'i weision dwyllo y bobl hyn, a chael lloned ei rwyd rhwng y Pentrebach ac Abercanaid; ie, gallai gael yr holl weithwyr cledrau, debygid, am un wyrth fach! Ond beth fyddai ei ennill wed'yn? Dim. Gŵyr satan na fyddai ond yn yr un twll wed'yn. Ni fyddai ei rwyd yn llawnach nag yw. Ai tybied y gallai Mr. W. farnu pwy ydwyf, wedi cael gwyrth, yn well nag o'r blaen, pan y sicrha ei fod yn gwybod eisoes "mai rhyw fath o ddyn wedi fy *nghythreuleiddio* ydwyf." Ie, Dei, a ddywed hyn; ond Williams sy'n gofyn i mi am brawf yn groes i Dei! ac ond cael gwyrth, addefa fod Dei yn gelwyddog. Fel hyn y mae pob peth o chwith ganddo—Crist a'i weision yn gwrthod rhoddi arwyddion un amser i bobl ddrwg, a hwn yn *begian* mor awyddus am arwydd, ag ydyw yr asen wyllt pan yfa y niwl tanllyd *(samiels)* yn ei hawydd am ddwfr, nes llosgi ei hymysgaroedd. Dywed y Bibl mai gweision y diafol a ddyry arwyddion. Nage, medd hwn. Profir chwi yn weision y diafol, *oni wnewch wyrth.* A ddywed yr Ysgrythyr yn rhywle, Os oes arnoch eisieu doethineb, i wybod rhagor rhwng gwas Duw a gwas y diafol, gofynwch gan ddyn, ac efe a ddyry i chwi arwydd er profi ei anfoniad? Os nad oes y fath orchymyn, nac un esiampl yn y Testament Newydd fod neb wedi gwneyd hyny, paham y dysgwylir i mi wneyd mwy nâ hwy? Ond dyma a ddywed Crist,— "Od oes neb yn ewyllysio *gwneuthur* ewyllys fy Nhad, yr hwn sydd yn y nefoedd, efe a gaiff wybod am y ddysgeidiaeth ai o Dduw y mae," &c. Pa bryd y caiff wybod? Wedi ufyddhau i'r ddysgeidiaeth, ac nid cyn hyny; ac nid wedi ufyddhau i ryw ddysgeidiaeth arall. Y mae cannoedd o'n brodyr a'n chwiorydd unwaed, ie, rhai call, cyfrifol, geirwir, a gonest, yn awr yn Merthyr a'i chylchoedd, wedi ufyddhau i'r efengyl hon, a chael doniau a addawyd yn enw ein Harglwydd, a chael sicrwydd mai eglwys Crist y maent ynddi yn awr, wedi bod rai o honynt am 30 neu 40 o flynyddau gydag enwadau yr oes, rhai yn bregethwyr, rhai yn ddiaconiaid, ac ereill yn aclodau. Ai tybied y gellir meddwl fod pob un o'r rhai hyn yn dwyn cam-dystiolaeth, er twyllo ereill, ac heb fod ganddynt un dyben mewn golwg, na modd eu twyllo mewn pethau a wel eu llygaid, a glyw eu clustiau, ac a deimlant o nerthol weithrediadau Ysbryd Duw yn eu plith? Rhyfedd iawn fyddai hyn, onide? Ond mewn gwirionedd y dywedaf, ddarllenydd anwyl, mai gwir eglwys Iesu Grist ydyw. Yr enw hwn sydd gan bawb o'i elynion yn cael ei erlid, a dweyd yn ddrwg am dano, ac amser a ddengys er gofid, 'rwyf yn ofni, i lawer o'm cyd-genedl anwyl. Druain oedd Crist a'i weision, yn cael eu *plagio* o hyd i wneuthur arwydd. Dyma a ddywed Paul fel ninnau, "Yr ydym ni yn *pregethu* Crist croeshoeliedig, i'r Iuddewon yn dramgwydd, ac i'r Groegwyr yn ffolineb." er eu holl waeddi am arwydd. Pam hyny, Paul, yn lle rhoi arwydd iddynt? Oherwydd i Dduw "weled yn dda, trwy ffolineb *pregethu* [ond nid trwy *arwyddion*], i gadw y rhai sydd yn credu"—nid credu drwy weled arwyddion, ond credu yr hyn a *bregethid*, sef Crist croeshoeliedig. Yma y gwelir yn eglur mai *tystiolaeth* yw sail ffydd; *pregethu* sy'n dwyn dynion i gredu. Dywed Paul fod ffydd yn dyfod trwy *glywed* gair Duw. Dro arall dywed, "Nid ydym ni yn rhodio wrth olwg, ond drwy ffydd." Os yw arwydd yn ofynol cyn credu, pwy a roes arwydd er cael gan Mr.

Williams gredu hyn? Os nad yw yn anghenrheidiol, paham y brefa am arwydd ynte? Gocheled, ddarllenydd hoff, na bo'r diafol yn dy demtio i ofyn arwydd, rhag ofn y dyry Duw arwydd rhy ddrud i ti. Wedi fod David mor daer am arwydd, yn nhud. 19, mae Williams yn haeru fod gwyrthiau wedi darfod, ac nad oes eu heisieu; fod yr hanes yn gyflawn yn y gair, fod Ysbryd Duw yn tywys plant y goleuni i bob gwirionedd. Os felly, paham yr haerant mor groes i'w gilydd? Mae y ffeithiau yn tystio i'w herbyn yn hyn. Anhawdd gwybod pa un ai David ai Williams yw'r mwyaf poblogaidd yn hyn, ond amlwg yw fod David Williams yn croesi'r Ysgrythyr a rheswm, pan haera mai er sefydlu y grefydd Gristionogol y gwnaeth Duw wyrthiau yn nyddiau yr Apostolion. Pe felly, dylai brofi ei dwyfoldeb yr un modd i'r paganiaid yn yr oes hon, onide byddai yn dderbyniwr wyneb. Pa fodd y dysgwylir i'r naill gredu gair y cenadon am beth sydd mor newydd a dyeithr, heb gael prawf, sef arwydd, mwy nag y dysgwylid i'r lleill gredu yr un peth ar y dechreu? Yn ol ei resymeg ei hun, dylai Mr. Williams naill ai addef fod eisieu gwyrthiau yn awr er sefydlu yr efengyl yn eu plith hwythau, neu wadu ei haeriad cyntaf;—nid yw yn bosibl i'r ddau fod yn wir, heb wneyd Duw yn gelwyddog! O! ffolineb mae y cert o flaen y ceffyl yma etto. Gwell fyddai iddo ddarllen yn fanylach y trae hawd a ddifria, sef yr *Hen Grefydd Newydd*; yno caiff weled fod Paul yn dyweyd yn hollol groes iddo ef am ddyhen Duw yn gwneyd gwyrthiau. Gwel Eph. iv, 12, 13. "I berffeithio y saint; i waith y weinidogaeth, i adeilad corff Crist; hyd oni ymgyfarfyddom ni o'l yn undeb ffydd [A ydyw yr holl sectau drwy y byd mewn undeb yn awr?], a gwybodaeth Mab Duw [a gyrhaeddodd efe hyd yno, tybied?], yn wr perffaith;" nid mor berffaith etto, aie? ond ei farnu wrth ei waith? Mae yn eglur fod Paul yn gelwyddog yma, os gwir a ddywed Mr. Williams! Holer y ddau fel hyn:—I ba ddyben y rhoddwyd y doniau ysbrydol, Mr. W.? Ateba 'profi dwyfoldeb a gwirioneddau y grefydd Gristionogol." Ateba dithau Paul.—"i berffeithio y saint!" Pa hyd yr oedd eu heisiau, Mr. W.? "Nid oes eu heisieu ar ol yr oes apostolig." Paul.—"Hyd oni ddel yr hyn sydd berffaith!" Hollol groes i'w gilydd, onide? Pa un o'r ddau a goeli, ddarllenydd? Oni wyddai efe hyn? Os gwir a ddywed, iddo ddarllen fy nhraethawd, neu ei feibl, rhaid ei fod wedi darllen y pethau hyn hefyd, yn y naill a'r llall: ac oni byddai i'r traethawd hwn fod rhy faith, dangosem fod ei holl lyfryn o'r bron, yn groes i reswm, iddo ei hun, ac i'r Ysgrythyr! Anhawdd credu ei fod, ynte, wedi ei amdoi â'r fagddu i'r fath raddau, nes gwneyd hyn oll yn gydwybodol. Ond, yn nhud. 20 y gwelir y gwr hwn yn ei liw priodol; ac mewn iaith gableddus, gwawdia addewidion pendant Mab Duw, a ninnau am eu credu. "Mawr yw stwr y Captain a'i frodyr, am yr arwyddion ag oedd yn canlyn y rhai a gredent yn yr oes apostolig," medd efe. A pha beth a wawdia efe fel hyn? Gwel yn Marc xvi, 17, 18, "A'r arwyddion hyn a ganlynant y rhai a gredant yn fy enw i y bwriant allan gythreuliaid; ac â thafodau newyddion y llefarant [nid yr oes hòno yn unig, nac er sefydlu yr efengyl a ddywed, ond y rhai a gredent yr efengyl, yn mhob oes]; seirff a godant ymaith. ac os yfant ddim marwol [ie, os yfant yn eu hanwybodaeth. nid os yfant wenwyn pan geisio y diafol neu ei weision ganddynt, gan demtio Duw], ni wna iddynt ddim niwed; ar y cleifion y rhoddant eu dwylaw, a hwy a fyddant iach." Ie, ddarllenydd, dyma y geiriau pwysig y gwawdia

y parchedig hwn ni am eu credu! Ai tybied tod Paine, Voltaire, neu un o'r anffyddwyr proffesedig, yn fwy rhyfygus ac anystyriol nâ hwn nac yn difrio cymaint ar eiriau y Duw anghyfnewidiol, yr hwn a ddywed "Nef a daear a ânt heibio, ond fy ngeiriau i ni phallant ddim." Ond, O, eithafion rhagrith! Clyw y dyn yn gwaeddi nerth ei ben, ie. ar yr un anrantiad o'r bron,—'Oud, dywedwn â'n holl galon. Iesu Grist yn bob peth, ac yn mhob peth'!'" O, ffei! Pwy a'i creda yn baeru ei gariad at Grist, pan mae ei dafod troellog yn cablu ei eiriau ef? "O cherwch fi, cedwch fy ngorchymynion," medd Crist Nid pob un sydd yn gwaeddi, Arglwydd, Arglwydd [ac yn gwadu ei eiriau ef] a ânt i deyrnas Dduw, ond yr hwn sydd yn gwneuthur ei ewyllys ef." Y mae yn rhaid i'r parchedig wadu ei Arglwydd, neu adael ei "fotasau a'i farch" yn y gors. Ac, wel y truan a nodais yn y dechreu, y gwna yntau yma! Y mae esiampl y cythreulig hwnw, y cyfeiria ato, yn profi gormod. Mae efe yn profi ei hun yn gelwyddog, drwy hòni fod ganddo ffydd. Os yw cymmaint â gronyn o had mwstardd yn ddigon er symud mynyddoedd, wyddys faint sydd ganddo ef hyd oni wna hyny, h. y., yn ol ei resymeg ef. Ond mae yr enghraifft hon o *logic* Mr. W. yn rhy dda i'w chollt. "Yn ol y gosodiad uchod [sef y diffyg o ffydd] rhaid bod ffydd yn y môr.' Dyma gymhariaeth ardderchog, onide? Ai cyffelyb dyn rhesymol ag sydd yn ddyledswydd arno gredu, yn feddiannol ar gynheddfau cyfaddas i hyny, i'r "môr, yr Iorddonen, coedydd, mynyddoedd, a'r meirw," &c.? Oni ŵyr efe ragor rhwng y naill a'r llall? Ai teg cymharu yr elfenau sydd yn cael eu llywodraethu gan ddeddfau hollol wahanol, i ddynion sydd yn feddiannol ar reswm ac ewyllys. Ni fuasai y crwt lleiaf yn ei ardal, yn ymresymu ddim dwlach nâ hyn Ond y mae efe yn meddwl iddo gael buddygoliaeth hollol yma. "Gwel y darllenydd," ebe ef; ie, gwel ei ffolineb ef nes ei ffieiddio. Yna rhydd efe branc i geisio dyfod o'r fagl; ond dyfnach dyfnach y sudda i'r gors bob prane. Nid oes ond ei gêg allan yn awr, ac â'i anadl olaf llefa yn groch, "Yr ydym ni yn galw arnynt i brofi eu haeriadau, trwy ddangos yr arwyddion" Cryn *stout* yw efe at ei bwnc, onide? yr hyn a ddywed gyntaf a ddywed olaf, er pawb. Mae braidd mor *stout* â gwraig y teiliwr hwnw, a alwai ei gwr yn *lousy tailor*, yr hyn a barodd iddo ef fyned i'w boddi; ond hyny a waeddai hi o hyd tra bu ei genau uwchlaw'r dwfr, ac wedi iddo ei gwthio dros ei phen, estynai ei llaw i'r làn, gan gleeian ei bysedd, i arwyddo ei bod o'r un feddwl wed'yn. Felly y llefa hwn am arwydd o hyd. Aeth yr apostolion allan, ac a *bregethasant* (nid rhoi arwyddion er cael gan bobl eu credu); "a'r Arglwydd yn *cydweithio*, ac yn *cadarnhau y gair* trwy arwyddion, y rhai oedd yn canlyn." Gwelir mai *canlyn*, nid *rhagflaenu y gair*, yr oedd yr arwyddion, ond *cadarnhau y* rhai oeddynt eisoes wedi credu y *gair* a bregethid. Nid eu dwyn i gredu oedd dyben Duw yn rhoddi arwyddion, onide fe'i siomwyd ef; canys ni chredodd braidd un o fil o'r genedl hòno, ond credu y *gair*, nid y wyrth. "Y rhai a gredant ynof fi, trwy eich *lymadrodd* chwi," medd Crist. Nid drwy eu gwyrthiau; eu tystiolaeth hwy am dano ef, oedd sail eu cred hwy. Y doniau ysbrydol ydynt y ffeithiau, neu y bendithion canlynol; ac felly mae y cert o flaen y ceffyl ganddo etto. Nid yw yr eithriadau fod rhai wedi credu drwy *weled*, yn profi yn groes i reol bendant Duw. Yn nhud. 20, y mae rhyw gymmysgedd o groes

resymu. Wedi bod ddwywaith yn Ddeist, wedi profi ei hun yn dwyllwr, ac wed'yn yn gofyn arwydd! Yna daw â Phaul (ebe efe) i brofi fod gwyrthiau wedi darfod! Paham y gofyn gymmaint am danynt, ynte? O, efallai, na welodd yr adnod hon y pryd hyny. Gwelir ei brawf yn 1 Cor xiii 8—"Cariad hyth ni chwymp ymaith; eithr pa un bynag ai prophwydoliaethau, hwy a hallant; ai tafodau, hwy a beidiant; ai gwybodaeth, hi a ddiflana" Yn awr, dyma ei noddfa gadarn, a'i brawf fod y pethau uchod wedi darfod; ac os gallaf dori pen y cawr hwn â'i gleddyf ei hun, bydd diwedd ar waeddi am arwydd, debygaf. Gwelir yn gyntaf, fod tri o bethau yn cael eu henwi yn yr adnod hon, pa rai oedd i ddarfod. Os hòna Mr. W. fod y ddau flaenaf, sef prophwydoliaethau a thafodau wedi pallu eisoes, addefa hefyd fod yr olaf, sef *gwybodaeth*, wedi diflanu yr un amser; canys mae y tri yn gyfystyr o ran cystrawiad, a hyny fyddai profi yr holl fyd yn *ignoramuses*, yn ffyliaid, heb ddim gwybodaeth. Er maint ei ymffrost am gariad, lled angharïadus fyddai hyn. Beth a feddyliai ei senhadrim am dano—beth a ddywedai duwinyddion dysgedig yr oes, ïe, pawb, wrth Mr. W., pan y profai hwy oll yn ffyliaid? Etto, gwna hyn, ac addefa ei hun felly, os gwir ei *logic*; ond gwell ganddo esbonio ychydig i ddod o'r fagl hon, debygaf, nad gwybodaeth a feddylir wrth yr olaf. Yna, nid prophwydoliaeth, na thafodau, a feddylir wrth y ddau flaenaf; os felly, nid yw yr adnod yna yn profi ei osodiad. Cymmered y ffordd y myno, y mae efe yn y ddalfa yn awr. Wel, beth a wna nesaf, tybied? Os dal at ei bwnc, sef fod Paul yn profi yma fod prophwydoliaethau i ballu, a thafodau i beidio, yn yr oes hòno, yna daw â Phaul i ddyrysni yn siwr, ïe, yn gwrthddweyd Duw, ac yn croes-ddweyd ei hun; canys drwy y hennod flaenorol, sef y xii, mae Paul yn ymresymu yn gadarn fod yr holl bethau hyn yn anghenrheidiol yn yr eglwys, neu gorff Crist, tra y byddai yn y byd; ac yn adn. 28. mae yn dweyd ar ei wir fod *Duw* wedi gosod rhai yn yr eglwys yn apostolion, prophwydi, athrawon, yna gwyrthiau, ac wedi hyny doniau iachau, rhywiogaethau tafodau. Pwy a all feddwl fod Paul yn diddymu y pethau hyn, wedi dweyd ar ei wir fod Duw wedi eu gosod yn yr eglwys? Os dyna feddwl Paul yn yr adnod uchod, mae yn gwrthddweyd ei hun cyn pen hanner dwsin o adnodau yn mlaen, sef pen. xiv. 1,—"A deisyfwch ddoniau ysbrydol; ond yn hytrach fel y *prophwydoch*." Adn. 5, "Mi a fynwn petych chwi oll yn llefaru â thafodau dyeithr, ond yn hytrach *brophwydo* o honoch." Adn. 39, "Byddwch awyddus i brophwydo [peidiwch a phrophwydo, medd Mr. W.]; na waherddwch lefaru â thafodau dyeithr," medd Paul. Gwaherddwch, medd Mr. W. Pa un a goeliwch? maent yn hollol groes. Gwel y darllenydd feddwl Paul yn yr adnodau canlynol. Addefa mai o *ran* yr oeddynt yn gwybod, a phrophwydo; "eithr pan ddel yr hyn sydd *berffaith*, *yna* (ond nid cyn hyny) yr hyn sydd o *ran* a ddileir." Felly, mae Paul yn profi fy ngosodiad i yn yr adnod uchod tuhwnt i hob dadl. sef fod eisieu prophwydoliaeth, a'r holl ddoniau, yn yr eglwys er perffeithio y saint (tra fyddo saint i'w perffeithio ar y ddaear hon), hyd oni welwn yr hwn sydd berffaith, sef Crist, wyneb yn wyneb. Fel hyn, gwelir fod Paul yn gysson ag ef ei hun, â Duw, ac â Mormoniaeth; ac oll yn groes i Mr. W. Y mae Mr. W. yma yn groes hollol i'r hyn oedd yn y dudalen flaenorol (gwel t. 19) —"Ac nid ydym ni yn ammheu y posiblrwydd i wneyd gwyrthiau!!!"

Paham ein condemnio ni, ynte, am hyny? paham dweyd fod Paul yn dangos eu bod wedi darfod? paham dweyd "nad oes eu heisieu?" Ond, yn y gosodiad canlynol, y mae Mr. David neu Mr. Williams yn Formoniad etto, sef—"Pe bai yr hwn sydd yn Hollalluog yn gweled hyny yn anghenrheidiol," ebe efe. Dyma a ddywedwn ninnau, a dyma efe wedi addef y pwnc a wrthwynebai o hyd. Cawn weled pa hyd y bydd heb ei wadu etto. Yn nhud. 21, dywed—"Mae'r Captain, yn nhud. 24 o'i Draethawd, yn haeru anwiredd noeth am ddau a phedwar ugain o bregethwyr," &c.; a dyma ydyw y celwydd, sef nad aeth yr apostolion allan i bregethu, wedi i Grist orchymyn iddynt beidio, yn ei ymddyddan â hwynt *wedi ei adgyfodiad*, hyd nes y derbyniasant yr Ysbryd Glan ar ddydd y Pentecost; a'r modd y prawf hyn yn gelwydd ydyw, profi eu bod hwy a'r Deg-a-thrugain wedi bod yn pregethu flynyddau CYN CAEL Y GWAHARDDIAD HWN. Dyma wastraffu iaith a rheswm! Onid am yr amser pennodol hwnw, pan oedd Crist yn rhoddi cenadwri iddynt fyned i'r *holl fyd* (ac nid at ddefaid cyfrgolledig ty Israel), yr oeddwn yn son? Sicr iawn; ac y mae naill ai David al Williams yn addef hyny fel hyn—"A gweled ei wyrthiau cyn, ac AR OL ei farwolaeth ef." Pwy yw'r celwyddwr? Nid myfi; canys y frawddeg hon, "AR OL EI FARWOLAETH," a brawf nad *cyn hyny* y cyfeiriwn ato. Mae hyn yn rhy eglur i ni allu meddwl, mai yn ei anwybodaeth y gwnaeth hyn. Gwel Act. i, 4—"Ac efe a orchymynodd iddynt nad ymadawent o Jerusalem, eithr dysgwyl am addewid y Tad," &c. Hefyd, Luc xxiv, 47—"Gan ddechreu yn Jerusalem," &c. Adn. 49—"Eithr arhoswch chwi yn Jerusalem, hyd oni wisger chwi â nerth o'r uchelder." Os dywedais i gelwydd yn hyn, yna dywedais ar sail yr hyn a ddywedodd Crist; ac felly yr arosasant hwy, fel y dywedais innau. "A'r neb a ewyllysio ddrwg i'w gymmydog, iddo ei hun y daw." Bydded Crist a'i apostolion yn eirwir, a Mrd. David a Williams yn gelwyddog. "*Ti yw y gwr.*" Mae wedi gwallgofi, yn siwr, pan yr haera "nad oes ammodau y mabwysiad perthynol i deyrnas Dduw." A ydyw efe yn ddysgawdwr yn Abercanaid, ac ni ŵyr ammodau y mabwysiad!! Beth a ddichon efe ddysgu i neb, ynte? "Clywsom am dderbyn y mabwysiad," ebe ef, "ac Ysbryd y mabwysiad." Beth, ai yn ddiammodol y derbynia pechaduriaid y mabwysiad? Os ie, dyna radd uwch nâ'r uwchaf o Galfiniaeth a fu erioed, debygaf. Os nade, yna rhaid eu bod yn ei dderbyn ar ryw *derms*, a hyny a fyddai yr ammodau—dyn yn proffesu bod yn dysgu rhai y ffordd i deyrnas Dduw, ac heb wybod am ammodau y mabwysiad ei hun! Yr oeddwn yn meddwl er ys tro na wyddai efe ddim am y deyrnas, onide ni buasai yn gwrthddweyd fy nhraethawd, ac heb ddim i'w ddweyd ychwaith ond haeriadau a thwyll-resymau. Ond ni raid ammheu yn hwy; mae ei leferydd yn ei gyhuddo etto o'i anwybodaeth hollol am y deyrnas, fel y gwelir. "Drws y deyrnas ydyw bedydd, ebe'r Captain; dywedaf innau (ebe ef) mai Crist yw drws corlan y defaid." Sicr iawn mai efe ydyw y drws, canys hebddo ef ni allai neb fyned yno. Ond yn ystyr Mr. W., rhaid myned drwy gorff neu berson Crist yno. Dyma ei gystrawiad; os nad felly, rhaid myned yno drwy y ffordd a orchymynodd efe; a hyny a fyddai y drws, "*nid yn ei le ef*," ond mewn ufydddod iddo ef. Galwed Mr. W. y pethau hyny a fyno—rhaid iddo eu gwneyd yn ddrws, neu fyned drwy gorff Crist. Ond beth a ddywed

Crist ydyw y drws? Gwel Ioan iii 5,—"Yn wir, yn wir, meddaf i ti, Odd eithr *geni* dyn o ddwfr ac o'r Ysbryd, ni ddichon efe fyned i mewn i deyrnas Dduw." Dyma'r ffordd i fyned mewn, medd Crist; a chan mai trwy y drws yr eir i mewn, beth ond drws ydyw bedydd? Dysgawdwr go ddall, onide, heb wybod hyn? Yn nhud 24 dywed David —"Diammheu fod maddeuant pechodau wedi ei gyssylltu â gwir ffydd, ac edifeirwch, ac *ufydd-dod*" (sef bedydd, &c, wrth gwrs). Yna dyna yr ammodau yr haeri ei anwybodaeth am danynt gynneu! Mae ei gof yn fyr iawn. "Gall dynion gael eu bedyddio, a bod yn golledig," ebe efe. Pwy a ddywedodd yn amgen? Nid myfi. "Canys yr hwn a barhao hyd y diwedd a fydd cadwedig," ebe Crist, er nad yw Simon Magus yn brawf o'r haeriad. Ond clywch beth a ddywed Williams am fedydd, yn ngwyneb David, ie, yn y llinell nesaf! "Nid yw bedydd yn angenrheidiol anhebgorol i iachawdwriaeth!!" Beth a ddichon y dyn feddwl wrth daeru ag ef ei hun fel hyn? *Ie* a *nage; ydyw* a *nac ydyw* o hyd—celwydd yr wyt ti yn ddweyd, David, a chelwydd a ddywedi dithau, Williams—yw'r oll a ddywed o'r bron. Dylasai derfynu y ddadl ag ef ei hun, cyn dod allan yn erbyn arall. Gwelwch fod genyf ddau i ddadleu â hwy yn mhob tudalen o'r bron, a'r rhai hyny yn groes i'w gilydd o hyd. Ond credaf David yn y peth hyn, canys dywed air yn air fel fy Nhaethawd; ac esgus gwael iawn sydd gan Williams dros ei bwnc, os nad oes ychwaneg nâ'r "lleidr ar y groes." Nid yw efe etto wedi profi fod hwnw yn gadwedig, ac ni ddichon ychwaith. Gwir i Grist ddweyd wrth y lleidr, "Hedlyw y byddi gyda mi yn *mharadwys*;" ond nid yw hyny yn profi ei fod wedi myned i'r *nefoedd;* canys dywed Crist wrth Mair y trydydd dydd wedi hyny— "Na chyffwrdd â mi; ni dderchefais i etto at fy Nhad" (Luc xx, 17). Os addefir fod ei Dad yn y *nefoedd*—os addefir hefyd fod Crist yn dweyd y gwir nad aeth i'r *nefoedd* y dydd hwnw y croeshoeliwyd ef, a chan ei fod yn dweyd y byddai y lleidr *gydag ef,* yna ni ddichon fod y lleidr wedi myned i'r *nefoedd* ychwaith. Wel, i ba le yr aeth efe, tybied? Dyna waith i Mr W. chwilio hyny allan. Ond nid i'r nefoedd yr aeth, medd Crist; a dyma David, a minnau, a Christ, yn tòri gwrthddadl Williams i lawr yn llwyr. Nid oes un perygl i ni osod bedydd, na dim arall, yn lle gwaed Crist. Ac yn awr, clywch David a Williams yn crechwenu—"AHA! y gwr mwyn, gostwng dy glust am funud; a mi a ddywedaf i ti fod gweinidogion y BEDYDDWYR, wedi eu bedyddio unwaith." Clywch, Annibynwyr! dyma eich *Champion* yn eich gwerthu yn awr. Beth, ai dyma eich *bwli*, yr ymrwymasoch "dros eich cyfeillion oll" i ddilyn ei gwt? Dyma ddyn gwaeth nâ Judas! Beth, eich gweinidogion chwi wedi eu bedyddio? Nac ydynt, medd efe, na chwithau, na neb arall drwy yr holl fyd, ond y BEDYDDWYR; canys dywed, er prawf o hyny, nad oes ond "un Duw, un ffydd, ac *un bedydd,*" a hwnw, wrth gwrs, ydyw bedydd y Bedyddwyr. Felly, gyfeillion oll, gwnawn y goreu o'n cyflwr. "Gallwn roddi ein cerdd yn ein cod," ebe ef. Dyma ddyn o feddwl cul, ac annhrugarog, onide? Pawb o'n hen dadau duwiol, o bob enwad, ond y *Bedyddwyr*, yn gyfeiliornwyr!!! Beth a wnewch â'r Goliath mawr hwn, sydd yn herio eich holl fyddinoedd? Onid *Ismael* y gelwir ef bellach, gan fod ei law yn erbyn pawb? Talasoch yn lled ddrud am eich *whistle* y tro hwn; ond o'm rhan i, ni'm siomwyd, canys ni ddysgwyliais yn amgen.

[illegible] *dd* [illegible] pobl i r gors, ac yn [illegible] d ni w[illegible] [illegible] wnedd [illegible] bert â hyn o'r blaen? [illegible] grechw[illegible] [illegible] lus, gweled yr oedd eich bod yn ei [illegible] darllen [illegible] hon olyniad apostolaidd, yn yr "*Atebydd*" [illegible] n[illegible], ond hyn a ddywedaf, fel Paul gynt, "Pe bu[illegible] ni, ie, [illegible] angel [illegible] angylu yn amgen n'i'r hyn a efengyl som i chwi, bydd d anathema" Y [illegible] udd sydd genym ni yn hollol, a'r un Ysbryd yn dwyn y [illegible] [illegible] bod yn gwrthddweyd yr Ysgrythyr gymmaint gwaedda yn erbyn, ' Ca[illegible] i ni wybod dim yn eich plith, ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groes hoelio [illegible] chwi oeth Gwir fod satan yn cipio ambell ysgrythyr ar flaen ei dafod, ac [illegible] angel y goleuni Efe yn gwaeddi, ' Na chwanega at ei air ef," pan y mae yn ei wyrdroi yn erchyll ei hun. Nid oes yn yr adnod y cyfeiria ni ati, yn Dat xxii, 18, ddim yn profi ei osodiad ffol, sef "ychwanegu at y Bibl" Nid dyna a ddywed Ioan, ond at 'eiriau prophwydoliaeth *y llyfr* HWN," sef y brophwydoliaeth a gafodd ar ynys Patmos, yn gynnwysedig yn y "LLYFR HWN," sef yr hwn oedd dan ei law y pryd hyny, ac a elwir yn awr Llyfr y Dadguddiad—nid y gyfrol santaidd, ond am hyn gwel yr "*Atebydd.*" Nid yw yr enwau cabledus a roddir arnom gan ei gyfeillion yn rhud 30, ond profi mai "lle y byddo y burgyn, yno yr ymgasgl yr eryrod" "Adar o'r un lliw a ehedant i'r un lle." Da fyddai iddynt wario llai o'u hamser yn y gyfeddach, a mwy gyda eu biblau. Ni allaf ddiweddu, heb alw eich sylw at ei feirniadaeth ar yr "*Annerchiad.*" Condemnia ef o ddiffyg prawf digonol, pan yr addefa dystiolaeth deuddeg o ddynion a ddywedant eu bod hwy yn gwybod mai gwir yw Pa brawf gwell a ddichon neb gael? Byddai tystiolaeth un o'r cyfryw yn ddigon am fywyd dyn yn mhob llys gwladol, ond nid yw y deuddeg o ddim gwerth iddo ef (ebe ef. Eisieu arwydd etto, debygaf!! "Ond pwy a'u cred ar eu gair?" ebe ef. Dyma ddynoethi ei galon yn awr. Pwy a welodd ddyn celwyddog a gredai neb ar ei air? O na mesura bawb wrth ei lathen ei hun! Enghraifft o hyn yn ei addefiad ef Etto— "Yn ofer, gan hyny, y dywedant. Wele Crist yma, neu wele acw," medd efe. Cyflawniad llythyrenol o brophwydoliaeth Pedr yw hyn, a welir yn 2 Pedr iii, 3, 4, ac yn 2 Tim iii, a'r iv Dengys ei anwybodaeth hollol am "offeiriadaeth ac apostoliaeth" Gan na fu erioed, ac nad yw yn bosibl, i'r olaf fod heb y llall, ni fu erioed, ac ni fydd byth, un gwas i Dduw, heb fod ganddo ryw gyfran o'r gyntaf hefyd. Cyn dibenu, caiff y darllenydd gryn ddifyrwch os daw gyda ni i sylwi ar ei gyfarchiad ef ataf fi yn bersonol, ond cofia ofalu na chyffroir dy nwydau, onide byddi cyn waethed â Mr W. ei hun, a cholli yr holl ddigrifwch hefyd Clyw ef yn ymgomio â ni "NID MEWN LLID," ebe ef cofia, ddarllenydd. "Y dyn, yr ydwyf yn dy alw yn wag ymffrostiwr [nid mewn llid], yn dwylwr meddyliau gweiniaid [nid mewn llid], yn debyg i'r gau brophwyd" Nid mewn llid y mae efe. "Yfweh bethau marwol" Ai tybied nad yw mewn tipyn o lid i mi yn awr? "Yr adyn annuwiol a ffol" Mae yn de breu digio, yn siwr "Myn rhai haeru nad ydwyt nac angel na dyn, ond mai cythraul bychan ydwyt." Ai tybied nad yw yn ddig wrthyf erbyn hyn? "Yr ydwyf fi yn barnu mai rhyw fath o ddyn ydwyt, ond dy fod wedi dy gythreuleiddio i'r fath raddau, fel y mae sawyr uffernol yn ymddyrchafu oddiar dy haeriadau annuwiol a thwyllodrus" Beth a feddyli yn awr, ddarllenydd? Onid yw efe yn dal yn dda heb ddechreu llidio? Yna dengys ei gariad ataf, mewn pwt o gynghor a'i *suitia* ef ei hun yn well o lawer Ond, pe dilynid ei holl eiriau mwyn o'i wefus bur, ysgrifenid bron ei draethawd drosodd oll. Gwel pob dyn egwyddorol, wrth ei ganfod yn annelu ei "saethau brwyn" ataf fi, ac yn arter iaith fel hyn, ei fod ar ben—nad oes ganddo ddim yn erbyn fy athrawiaeth, ac nid ydwyf fi yn *hidio* beth a wnel dynion i mi, os credant yr efengyl a bregethaf, fel eu hachuber hwy, ac y gogonedder enw fy Meistr dyoddefodd ef lawer mwy erof fi, nag a allaf fi ddyoddef er mwyn ei enw ef Ond, mae y teitlau hyn a roddant arnom yn rhy dda i'w colli hefyd. Geilw un ni "yr hen Fagus, a Simon ei fab" (ond nid mewn llid,; arall, mai "Secla a'i feibion" (nid yw yntau ddim yn ddig); arall, mai "Mahomet" (ond yn bur ddiddig, cofier , a'r llall, mai "Johanah" (mor anhawdd eu digio!) Ond Mr Williams sydd yn rhoddi y *finishing stroke* ar y cyfan—"A hwnw mor rhyfygus (ebe ef , â pe buasai gwedi ei ysgrifenu â bysedd cythraul [mae yn ddig wrth hwna, bid siwr], a hwnw wedi trochi ei bin mewn gwenwyn dreigiau [diwch, diwch], neu yn